



CYFLAWNI PROSIECT MENTER >

Cynllun y sesiwn

PROSIECTAU MENTER



Prince's Trust

START
SOMETHING

CIPOLWGW >

Y sesiwn yma ydy'r drydedd yn yr uned 'Cyflawni Prosiect Menter'. Yn y sesiwn, bydd y dysgwyr yn hyrwyddo ac yn cyflawni eu prosiect menter eu hunain.



CYSYLLTIADAU ÂR CWRICWLWM

- ✓ Menter (Cymru)



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A RHIFEDD

- ✓ Ysgrifennu am gynnyrch/ gwasanaeth o safbwynt marchnata
- ✓ Darllen rhestrau gwirio a chynlluniau



DEUNYDDIAU

- ✓ Rhestr adnoddau a thasgau o'r sesiwn flaenorol
- ✓ Y deunyddiau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect menter
- ✓ Cyfrifiaduron (dewisol)
- ✓ Deunyddiau celf (dewisol)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cyflawni Prosiect Menter – Deiliant Dysgu: Gallu cyflawni prosiect menter

DEILLIANNAU DYSGU >

- ✓ Creu deunyddiau marchnata ar gyfer prosiect menter
- ✓ Cymryd rhan mewn prosiect menter

GWEITHGAREDDAU >

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<u>Cyflwyniad</u>	5 munud	<u>03</u>
<u>Marchnata</u>	20 munud	<u>04</u>
<u>Creu deunyddiau marchnata</u>	Yn dibynnu	<u>06</u>
<u>Y gwaith cynllunio terfynol</u>	10-15 munud	<u>07</u>
<u>Cyflawni'r prosiect</u>	Yn dibynnu	<u>08</u>



CYFLWYNIAD >



AMSER

5 munud

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n awr yn dechrau cyflawni eu prosiect menter. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn hyderus eu bod yn gwybod beth ydy eu prosiect, a bod ganddyn nhw eu rhestr o dasgau ac adnoddau o'r sesiwn flaenorol.
2. Eglurwch fod angen iddyn nhw hyrwyddo'r prosiect cyn mynd ati i'w gyflawni, er mwyn i gwsmeriaid posibl fod yn ymwybodol o pryd a ble y byddan nhw'n gwerthu eu cynnyrch neu eu gwasanaeth. Efallai eu bod wedi rhestru hyn yn y sesiwn flaenorol fel un o'r tasgau y mae angen iddyn nhw eu cyflawni.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

MARCHNATA

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel 1/Lefel 4 SCQF neu Lefel 2/Lefel 5 SCQF y cymhwyster, byddai'r gwaith cynllunio a chreu mae'r dysgwyr yn ei wneud yn y gweithgaredd yma, ynghyd â'r gwaith yn y gweithgaredd nesaf, yn gallu eu helpu i weithio tuag at y meini prawf asesu sydd wedi'u rhestru.



AMSER

20 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Papur a beiros
- ✓ Cyfrifiadur (dewisol)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cyfrannu at y broses o greu adnodd marchnata ar gyfer y prosiect menter

CAMAU'R GWETHGAREDD

1. Gofynnwch i'r dysgwyr beth mae marchnata yn ei olygu. Dylent fod yn cofio hyn ers sesiwn gyntaf yr uned yma. Dylech eu hatgoffa ei fod yn golygu, yn y bôn, rhannu'r neges am eich busnes er mwyn cyrraedd cwsmeriaid posibl.
2. Fel un grŵp mawr, ewch ati i greu map meddwl ar fwrdd gwyn neu siart troi, sy'n dangos yr holl wahanol ffyrdd y gallent farchnata/hysbysebu eu prosiect menter. Dylech eu hatgoffa nad ydy'r dulliau drud a ddefnyddir gan fentrau sydd wedi'u hen sefydlu yn mynd i fod yn ymarferol ar gyfer y prosiect – ee, hysbysebion teledu. Atebion posibl:
 - Negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich ysgol/coleg/lleoliad (os oes gan eich lleoliad gyfrifon o'r fath)
 - Negeseuon e-bost at fusnesau lleol i rannu'r neges
 - Poster i'w gosod yn yr ardal leol
 - Rhannu'r neges ar lafar – dweud wrth bobl yn y gymuned leol
 - Tafleenni – gallent ddosbarthu'r rhain yn yr ardal leol, neu eu postio drwy flwch post pobl
3. Eglurwch mai nod y tactegau marchnata hyn ydy bod pobl:
 - Yn gwybod am eu cynnyrch neu wasanaeth
 - Yn gwybod beth sy'n dda amdano a pham y dylen nhw ei brynu
 - Yn adnabod eich brand ac yn gwybod beth mae'n ei gynrychioli
4. I greu eu deunyddiau marchnata, mae angen iddyn nhw wneud y canlynol:
 - Creu enw a logo ar gyfer eu menter
 - Penderfynu ar bwynt gwerthu unigryw (a chyfleu hynny drwy eu deunyddiau marchnata)
 - Meddwl am gynllun cyhoeddusrwydd (hynny ydy, ble, pryd a sut byddan nhw'n hysbysebu eu cynnyrch/gwasanaeth?)



Prince's Trust

START
SOMETHING

Dywedwch wrth y dysgwyr y bydden nhw'n gallu rhannu'r cyfrifoldebau hyn ymysg ei gilydd, os ydyn nhw'n gweithio mewn grŵp ar gyfer eu prosiect. Gallent gyflawni'r gweithgareddau hyn gyda phapur a beiro neu ar gyfrifiadur.

5. Dylech annog y dysgwyr i rannu eu cynlluniau â gweddill y grŵp. Dylech hefyd sicrhau bod eu cynlluniau'n ymarferol i'w cyflawni.



CREU DEUNYDDIAU MARCHNATA

Ar gyfer y dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel 1/Lefel 4 SCQF neu Lefel 2/Lefel 5 SCQF y cymhwyster, byddai'r gweithgaredd yma'n gallu eu helpu i weithio tuag at y meini prawf asesu sydd wedi'u rhestru.



AMSER

Yn dibynnu



DEUNYDDIAU

- ✓ Papur a beiros
- ✓ Cyfrifiadur (dewisol)
- ✓ Deunyddiau celf – ee, cerdyn, beiros lliw, ac ati (dewisol)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cyfrannu at y broses o greu adnodd marchnata ar gyfer y prosiect menter

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Ar sail y gwaith cynllunio maen nhw wedi'i wneud, rhowch ychydig o amser i'r dysgwyr greu deunyddiau marchnata. Gallant ddefnyddio'r cyfrifiadur (gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd neu safleoedd fel [Canva](#)), neu wneud y deunyddiau â llaw gyda deunyddiau celf. Efallai y byddan nhw am wneud posteri, taflenni neu lyfrynau. Dylent hefyd benderfynu pryd a ble i ddsbarthu'r rhain.

Hefyd, dylech eu hannog i farchnata'n ddigidol os oes modd, fel negeseuon e-bost a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol. Gwnewch yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud yn y ffordd briodol bob amser – hynny ydy, drwy gyfrifon swyddogol eich lleoliad ac, os oes angen, gyda chaniatâd y rhieni/gwarcheidwaid.

2. Ewch o amgylch y grwpiau i gynnig help a sicrhau eu bod ar y trywydd iawn gyda'r deunyddiau. Ar ôl iddyn nhw greu'r deunyddiau, helpwch y dysgwyr i'w dosbarthu a'u defnyddio.



Prince's Trust

START
SOMETHING

Y GWAITH CYNLLUNIO TERFYNOL >



AMSER

10-15 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Rhestr adnoddau a thasgau o'r sesiwn flaenorol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn barod i fwrw iddi drwy wirio pethau'n derfynol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol mynd drwy'r rhestrau o dasgau ac adnoddau a wnaethant yn y sesiwn flaenorol.
 - Ydyn nhw'n teimlo'n hyderus ynglŷn â rheoli'r arian y byddan nhw'n ei wneud, ac oes ganddyn nhw gynllun i gadw trefn ar hyn?
 - Ydy pawb wedi cwblhau'r tasgau roedd angen iddyn nhw eu gwneud?
 - Oes ganddyn nhw gynllun wrth gefn os bydd rhywbeth yn mynd o'i le?
 - Oes unrhyw un am newid unrhyw beth neu angen help?
 - Ydy pawb yn gwybod ble mae angen iddyn nhw fod, a sut maen nhw'n cyfrannu at gyflawni'r prosiect?
2. Gwnewch yn siŵr bod pawb wedi cwblhau'r tasgau roedden nhw'n gyfrifol amdanyn nhw – os oes unrhyw un wedi cael trafferth, gofynnwch i'r dysgwyr eraill helpu neu addasu'r prosiect yn unol â hynny.



Prince's Trust

START
SOMETHING

CYFLAWNI'R PROSIECT >

Bydd angen i bob dysgwr sy'n gweithio tuag at y cymhwyster ddangos eu bod wedi cymryd rhan yn y prosiect menter. Ystyriwch y ffyrdd o wneud hyn cyn iddyn nhw fynd ati i wneud y gwaith – ee, recordiadau, lluniau, fideos, dyddiaduron, datganiadau ategol gan aelodau staff, ac ati.



AMSER

Yn dibynnu



DEUNYDDIAU

- ✓ Yr holl ddeunyddiau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiectau menter



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cymryd rhan yn y prosiect menter

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dylai'r dysgwyr fod yn gwbl barod yn awr i gyflawni eu prosiectau menter. Dylech barhau i roi cefnogaeth barod drwy gydol y broses.

Mae angen i chi gadw mewn golwg sut bydd y dysgwyr yn dangos eu bod wedi cymryd rhan yn y prosiect, a chofiwch dynnu lluniau a chadw'r deunyddiau!

